**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Vikki Howells AS**
**Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch**
**27 Tachwedd 2025**

**RHAN 1**

## 1 Disgrifiad

1.1 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau’r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2025 ("y Rheoliadau") sy'n cael eu gwneud o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022").

1.2 Mae Deddf 2022 yn darparu ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn"), a sefydlwyd ar 15 Rhagfyr 2022[1] ac a ddaeth yn weithredol ar 1 Awst 2024. Mae'r Comisiwn (a elwir bellach yn Medr) yn gyfrifol am hyrwyddo, cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

1.3 Mae Rhan 2 o Ddeddf 2022 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ("y gofrestr") y mae'r Comisiwn yn gyfrifol am ei sefydlu a'i chynnal. Y gofrestr fydd y mecanwaith ar gyfer cyflawni goruchwyliaeth reoleiddiol briodol a chymesur mewn perthynas â darparwyr addysg uwch cofrestredig sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, gan gynnwys cyllid grant gan y Comisiwn, neu sy'n elwa ar ddynodi eu cyrsiau'n awtomatig at ddibenion cymorth ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru.

1.4 I gofrestru gyda'r Comisiwn rhaid i ddarparwyr fodloni ystod o amodau cofrestru cychwynnol, ac ar ôl iddynt gofrestru rhaid iddynt gydymffurfio ag ystod o amodau cofrestru parhaus. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn fonitro cydymffurfiaeth â'r amodau cofrestru parhaus, ac mae Deddf 2022 yn darparu ystod o swyddogaethau rheoleiddio ac ymyrryd i'r Comisiwn i gefnogi hyn. Mae Deddf 2022 hefyd yn nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu dilyn wrth arfer y swyddogaethau hyn, gan gynnwys mewn perthynas â rhoi hysbysiadau neu gyfarwyddyd.

1.5 Mae Deddf 2022 yn darparu, pan fo'r Comisiwn yn penderfynu rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd yn unol â rhai o'i bwerau rheoleiddio, caiff darparwr addysg drydyddol ofyn am adolygiad ("adolygiad o benderfyniad"). Bydd adolygiadau o benderfyniadau yn cael eu cynnal gan adolygydd annibynnol neu banel o adolygwyr (adolygydd/adolygwyr penderfyniadau) a benodir gan Weinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 79(1) o Ddeddf 2022.

1.6 Mae Deddf 2022 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau mewn cysylltiad â chynnal adolygiadau gan yr adolygydd/adolygwyr penderfyniadau a benodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r Rheoliadau yn gwneud y ddarpariaeth hon, gan nodi'r canlynol:

- y weithdrefn sydd i'w dilyn gan y ceisydd wrth wneud cais am adolygiad o benderfyniad
- y camau y mae'n rhaid i'r adolygydd penderfyniadau annibynnol eu cymryd ar ôl cael cais

[1] Yn rhinwedd dyfodiad adran 1 o Ddeddf 2022 i rym gan erthygl 2(a) o Orchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 1) 2022 OS 2022/1318.

- yr argymhellion y caniateir eu gwneud gan yr adolygydd penderfyniadau a'r seiliau dros yr argymhellion hynny
- sut mae'r Comisiwn i ymateb i argymhelliad gan yr adolygydd penderfyniadau
- pwerau a dyletswyddau'r adolygydd penderfyniadau, y ceisydd a'r Comisiwn yn ystod y broses adolygu

1.7 Mae'r Rheoliadau yn dod i rym ar 25 Rhagfyr 2025.

## 2 Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3 Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud yn unol ag adrannau 79(3), 79(4) a 143(2)(a) o Deddf 2022.

3.2 Mae adran 79(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag adolygiadau o benderfyniadau, gydag adran 79(4) yn darparu y caiff rheoliadau o'r fath gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- y seiliau dros gynnal adolygiad
- yr argymhellion sydd i’w gwneud gan yr adolygydd penderfyniadau;
- y cyfnod y caniateir i gais am adolygiad gael ei wneud ynddo, a’r ffordd y mae’n rhaid gwneud y cais;
- y gweithdrefnau a’r camau sydd i’w dilyn;
- y camau sydd i’w cymryd gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad.

3.3 Mae adran 143(5) o Ddeddf 2022 yn darparu bod y Rheoliadau yn ddarostyngedig i'w hannilysu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

## 4 Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Bwriad sefydlu proses adolygu penderfyniadau yw sicrhau bod gan ddarparwyr hawl i gael adolygiad annibynnol pan fo’r Comisiwn yn cyhoeddi hysbysiadau neu gyfarwyddydau yn unol â rhai o'i bwerau rheoleiddio.

4.2 Amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud y Rheoliadau yw sicrhau eglurder i ddarparwyr addysg drydyddol mewn perthynas â'r broses adolygu penderfyniadau, rhoi cyfle digonol i ddarparwyr gyflwyno tystiolaeth a sicrhau y gellir cwblhau adolygiadau mewn modd amserol. Bwriad y Rheoliadau hefyd yw bodloni'r ddyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru yn Neddf 2022 i wneud

Rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag adolygiadau gan yr adolygydd/adolygwyr penderfyniadau.

4.3 Mae'r achosion lle caiff darparwyr ofyn am adolygiad o benderfyniad wedi'u nodi yn adrannau 45 a 78 o Ddeddf 2022 ac yn ymwneud â'r amgylchiadau canlynol:

- Mewn perthynas â'r system gofrestru a'r trefniadau rheoleiddio cysylltiedig:
  - Gwrthod cofrestru darparwr
  - Gosod neu amrywio amod cofrestru parhaus penodol
  - Cyfarwyddo darparwr mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus
  - Dileu darparwr o gategori o'r gofrestr
  - Pennu'r dyddiad y bydd darparwr yn cael ei ddileu o gategori o'r gofrestr
  - Rhoi hysbysiad yn gwrthod datganiad terfyn ffioedd neu amrywiad i ddatganiad o'r fath.

- Mewn perthynas â'r agweddau sicrhau ansawdd ar y trefniadau rheoleiddio, cyfarwyddo darparwr mewn cysylltiad â methiant i gydweithredu â'r Comisiwn (Medr) neu gorff ansawdd dynodedig.

4.4 Mae'r Rheoliadau yn nodi, yn rheoliadau 3 a 4, y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud cais am adolygiad o benderfyniad.

4.5 Mae'n rhaid i geisiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i'r adolygydd penderfyniadau a benodir gan Weinidogion Cymru o fewn 40 diwrnod calendr i'r dyddiad y mae'r darparwr yn cael ei hysbysu gan y Comisiwn am ei benderfyniad arfaethedig. Rhaid i gais nodi'r seiliau y ceisir adolygiad arnynt a rhaid iddo gynnwys:

- copi o'r penderfyniad sydd i'w adolygu, gan gynnwys unrhyw resymau dros y penderfyniad a roddwyd gan Medr
- unrhyw wybodaeth ategol y mae'r ceisydd yn dymuno i'r adolygydd penderfyniadau ei hystyried.

4.6 Mae rheoliadau 6, 7 ac 8 yn ymdrin â phwerau a dyletswyddau'r adolygydd penderfyniadau, yr ceisydd a Medr yn ystod y broses adolygu.

4.7 Mae rheoliad 6 yn darparu, ar ôl cael cais, bod yn rhaid i'r adolygydd penderfyniadau anfon copi o'r cais ac unrhyw wybodaeth ategol i'rComisiwn, a dweud wrth y ceisydd a'r Comisiwn ('y partïon') pa mor hir y mae'r adolygydd penderfyniadau yn credu y bydd yr adolygiad yn ei gymryd.

4.8 Caiff yr adolygydd penderfyniadau (rheoliad 7) hefyd:

- ofyn am wybodaeth ychwanegol gan y partïon, ac mae'n ofynnol i'r partïon ymateb i unrhyw gais o'r fath o fewn 28 diwrnod

- gwahodd y partïon i gyflwyno sylwadau pellach mewn ymateb i unrhyw wybodaeth ychwanegol.

4.9 Pan fo'r adolygydd penderfyniadau yn gofyn am wybodaeth neu sylwadau ychwanegol gan Medr neu'r ceisydd, rhaid iddo anfon copi o'r cais i'r parti arall ac unrhyw wybodaeth neu sylwadau ychwanegol a ddarperir.

4.10 Unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, rhaid i'r adolygydd penderfyniadau lunio argymhelliad ysgrifenedig a'i anfon at y partïon (rheoliad 8). Mae'r argymhellion y caniateir i'r adolygydd penderfyniadau eu gwneud wedi'u nodi yn rheoliad 5, a'r argymhellion hynny yw:

- na ddylai'r Comisiwn gymryd unrhyw gamau gweithredu, ac mae hyn yn gymwys pan na fo'r adolygydd penderfyniadau yn canfod unrhyw reswm, neu reswm digonol, i'r Comisiwn ailystyried y penderfyniad, neu
- dylai'r Comisiwn ailystyried ei benderfyniad.

4.11 Mae rheoliad 5 yn pennu'r amgylchiadau lle caiff adolygydd penderfyniadau argymell y dylai'r Comisiwn ailystyried ei benderfyniad, sef:

- pan fo'r Comisiwn wedi methu â chydymffurfio â gofynion gweithdrefnol fel y'u nodir ar wyneb Deddf 2022 neu mewn rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno,
- pan fo'r ceisydd wedi darparu gwybodaeth newydd. Gall hyn fod yn benodol berthnasol lle gallai gwybodaeth o'r fath fod yn sail i benderfyniad gwahanol gan y Comisiwn
- pan fo'r adolygydd penderfyniadau yn canfod nad yw'r Comisiwn wedi ystyried unrhyw ffeithiau perthnasol, neu
- pan fo'r adolygydd penderfyniadau yn ystyried bod y penderfyniad yn anghymesur.

4.12 Mae rheoliad 9 yn darparu, ar ôl cael argymhelliad gan yr adolygydd penderfyniadau, bod yn rhaid i'r Comisiwn ailystyried ei benderfyniad os yw'r adolygydd penderfyniadau yn argymell hynny. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn hefyd hysbysu'r ceisydd am ganlyniad ei ailystyriaeth, gan gynnwys ei resymau, o fewn 40 diwrnod i dderbyn yr argymhelliad gan yr adolygydd penderfyniadau.

4.13 Mae'r dull gweithredu yn y Rheoliadau yn debyg i raddau helaeth i'r trefniadau y darparwyd ar eu cyfer gan Reoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015 ac felly byddant yn gyfarwydd i'r mwyafrif o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru.

## 5 Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 14 wythnos ar y Rheoliadau drafft rhwng 31 Hydref 2023 a 5 Chwefror 2024. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn barn ar Reoliadau eraill sydd bellach wedi'u gwneud mewn perthynas â sefydlu'r gofrestr.

5.2 Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb mewn addysg a hyfforddiant ôl-orfodol at yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd dwy sesiwn friffio ar-lein i randdeiliaid ym mis Tachwedd 2023 i gefnogi'r ymgynghoriad.

5.3 Prif amcan y sesiynau hyn oedd cynorthwyo rhanddeiliaid i ddeall diben yr ymgynghoriad a galluogi rhanddeiliaid i ystyried yr wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori ac ymateb i'r ymgynghoriad.

5.4 Gwahoddwyd yr ymatebwyr i ymateb i’r cwestiynau ymgynghori drwy e-bost, holiadur post neu ffurflen ar-lein. Daeth 21 o ymatebion i law.

5.5 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn barn rhanddeiliaid ar y Rheoliadau drafft gyda'r mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno â'r trefniadau a gynigiwyd ar gyfer adolygu penderfyniadau. Felly, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau drafft yn dilyn yr ymgynghoriad.

5.6 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion a a ddaeth i law ar gael yn [Cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol: rheoliadau cychwynnol](#).

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

## 6 Crynodeb

6.1 Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau. Mae angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac mae'n dilyn isod.

6.2 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn nodi'r opsiynau a ystyriwyd mewn perthynas â phennu trefniadau ar gyfer adolygu penderfyniadau ac mae’n ystyried cwmpas, costau a manteision darparu ar gyfer y trefniadau hyn trwy wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2022.

6.3 Wrth baratoi'r Asesiad hwn, ystyriwyd dau opsiwn, fel a ganlyn:

- **Opsiwn 1:** Gwneud dim – nid yw Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau.

- **Opsiwn 2:** Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu penderfyniadau.

6.4 **Opsiwn 2** oedd y bwriad polisi datganedig pan basiwyd Deddf 2022 gan y Senedd ar 28 Mehefin 2022 ac fe'i cynhwyswyd yn y Datganiad o Fwriad Polisi a oedd yn cyd-fynd â'r Ddeddf pan gafodd ei chyflwyno i'r Senedd.

6.5 Fel y manylwyd yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y cynigion polisi a'r Rheoliadau drafft ym mis Chwefror 2024. Canolbwyntiodd yr ymgynghoriad ar **opsiwn 2**. Dyma oedd y bwriad gan fod angen i ddarparwyr addysg uwch ddeall pa broses fydd yn cael ei dilyn os byddant yn gofyn am adolygiad o benderfyniad a wnaed gan y Comisiwn (Medr).

6.6 Mae'r Asesiad hwn yn cynnwys y costau ar gyfer **opsiynau 1** a **2**. Mae hyn oherwydd bod gallu darparwyr i ofyn am adolygiad o benderfyniad wedi'i nodi ar wyneb Deddf 2022, ac felly byddai adolygiadau o benderfyniadau yn parhau hyd yn oed pe na bai'r rheoliadau'n cael eu gwneud, er na fyddai proses na threfniadau wedi'u nodi.

6.7 Mae’n rhaid nodi, er y gellir nodi categorïau o gostau, bod y costau wedi'u hamcangyfrif ar sail yr amser cyfartalog y gallai ei gymryd i fynd trwy'r broses benderfynu ac unrhyw gamau dilynol y gallai fod eu hangen o ganlyniad i argymhelliad. Efallai y bydd rhai adolygiadau o benderfyniadau yn fwy cymhleth ac yn gofyn am amser ac adnoddau ychwanegol. Mae'r Asesiad hefyd yn cynnwys y manteision ar gyfer opsiwn 2.

**Opsiwn 1**

6.8 O dan yr opsiwn hwn, byddai Gweinidogion Cymru yn dewis peidio â gwneud rheoliadau fel sy'n ofynnol o dan adran 79(3) o Ddeddf 2022, yn groes i'w rhwymedigaeth statudol i wneud hynny, a fyddai'n anghyfreithlon.

6.9 Byddai'n ofynnol o hyd i Weinidogion Cymru benodi adolygydd penderfyniadau neu banel o adolygwyr penderfyniadau, a byddai darparwyr yn dal i allu gofyn am adolygiad o benderfyniad yn unol â darpariaeth Deddf 2022.

Prif fanteision opsiwn 1

6.10 O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai angen unrhyw adnoddau gan Lywodraeth Cymru i wneud rheoliadau.

Prif anfanteision opsiwn 1

6.11 Er y byddai darparwyr yn dal i allu gofyn am adolygiad o dan Ddeddf 2022, ni fyddai unrhyw weithdrefn sefydledig ar waith i'w dilyn, gan achosi dryswch i'r darparwyr a'r Comisiwn. Gallai hyn hefyd olygu na fyddai datrysiad byth yn cael ei gyrraedd a chostau uwch o gymharu ag opsiwn 2.

6.12 Mae diffyg trefniadau diffiniedig ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau hefyd yn golygu y gallai dull gweithredu anghyson gael ei fabwysiadu, gan gynyddu'r risg y bydd darparwyr sy'n gofyn am adolygiad o benderfyniad yn cael eu trin yn wahanol gydag argymhellion amrywiol.

6.13 Mae'r penderfyniadau a allai fod yn destun adolygiad yn cynnwys materion fel y Comisiwn yn dewis gwrthod cais darparwr i'r ymuno â'r gofrestr. Mae statws cofrestru darparwyr yn pennu eu cymhwystra i dderbyn cyllid grant gan y Comisiwn ac i gael eu cyrsiau addysg uwch wedi'u dynodi ac felly mae unrhyw anghysondeb yn y broses adolygu penderfyniadau yn golygu y gallai darparwyr gael eu trin yn wahanol, a allai effeithio ar ddysgwyr yn y pen draw.

6.14 Yn ogystal, byddai Gweinidogion Cymru yn methu â bodloni eu dyletswydd i wneud rheoliadau sy'n nodi'r broses sydd i'w dilyn fel sy'n ofynnol gan adran 79(3) o Ddeddf 2022.

**Opsiwn 2**

6.15 Yr opsiwn hwn yw'r bwriad polisi datganedig ers i Ddeddf 2022 gael ei chyflwyno i'r Senedd (fel y nodir yn y Datganiad o Fwriad Polisi a oedd yn cyd-fynd â'r Bil ar y pryd), a dyma oedd y bwriad polisi datganedig o hyd pan basiwyd Deddf 2022 gan y Senedd ar 28 Mehefin 2022.

6.16 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan adran 79(3) o Ddeddf 2022 i bennu'r trefniadau ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau.

Prif fanteision opsiwn 2

6.17 Bydd opsiwn 2 yn rhoi eglurder ynghylch y trefniadau a'r prosesau a fydd yn cefnogi'r broses adolygu penderfyniadau ac yn caniatáu i ddarparwyr addysg drydyddol ofyn am adolygiad o benderfyniadau penodol a wneir gan y Comisiwn.

Prif anfanteision Opsiwn 2

6.18 Byddai opsiwn 2 yn gofyn am ddatblygu polisi a gwneud rheoliadau.

## 7 Costau

7.1 Mae costau'r ddau opsiwn yn cael eu harchwilio fel rhan o'r Asesiad hwn. Gellir nodi mathau o gostau ond darperir amcangyfrifon yn seiliedig ar ragdybiaeth o nifer y diwrnodau a'r adnoddau y gallai fod eu hangen i gynnal adolygiad arferol. Y sail ar gyfer y rhain yw'r costau a nodwyd ar gyfer y broses fel y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2015. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gallai'r costau fod yn fwy os yw'r adolygiad o benderfyniad yn arbennig o anodd, ond gallai'r costau fod yn llai ar gyfer adolygiadau syml.

7.2 Mae'r costau amcangyfrifedig a gynhwysir yn yr Asesiad hwn yn gysylltiedig â:

- datblygu proses adolygu penderfyniadau gan gynnwys canllawiau
- penodi'r adolygydd penderfyniadau / panel o adolygwyr penderfyniadau
- tâl yr adolygydd/adolygwyr penderfyniadau
- y broses ar gyfer cyflwyno adolygiad
- darparu gwybodaeth ddilynol
- unrhyw gamau dilynol o ganlyniad i argymhelliad y dylai’r Comisiwn (Medr) ailystyried ei benderfyniad cychwynnol.

7.3 Mae adran 79(1) o’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi person neu banel o bersonau i adolygu penderfyniadau o dan adran 45 neu 78 o'r Ddeddf honno. Nid yw Deddf 2022 yn nodi nifer yr adolygwyr penderfyniadau sydd eu hangen nac nid oes unrhyw ofyniad i Weinidogion Cymru ddefnyddio dull penodi penodol fel y broses penodiadau cyhoeddus.

7.4 Bydd cost i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â recriwtio'r adolygydd/adolygwyr penderfyniadau, a cheir amcangyfrifon yn nhabl 1 isod.

7.5 Bydd y costau hyn yn cynrychioli costau cyfle mewn perthynas â staff Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am baratoi hysbyseb, adolygu ceisiadau a gwneud argymhellion penodi i Weinidogion Cymru. Lle bo'n bosibl, defnyddir y sianeli presennol ar gyfer hysbysebion i leihau unrhyw gostau ychwanegol. Amcangyfrifir mai'r gost gyfer y broses hon yw oddeutu £10,400. Mae'r costau wedi'u nodi yn nhabl 1 ac maent yn seiliedig ar y bandiau uchaf cyfredol ar gyfer graddau'r gwasanaeth sifil.

*Tabl 1*

| **Gradd** | **Diwrnodau** | **Cost** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Band Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 4 diwrnod | £2,416 |
| Gradd 7 | 8 diwrnod | £3,568 |
| SEO | 9 diwrnod | £3,069 |
| HEO | 5 diwrnod | £1,360 |

7.6 Bydd y categorïau o gostau a amlinellir uchod yn cael eu hailadrodd pan fydd adolygydd/panel yn dod â'u deiliadaeth i ben; neu pan benderfynir y dylid penodi adolygydd newydd.

7.7 Bydd costau parhaus i Lywodraeth Cymru hefyd yn ymwneud â sefydlu'r panel a'r dyletswyddau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r panel. Bydd costau yn amser staff yn bennaf. Unwaith eto, mae'n anodd darparu'r union gostau gan y byddant yn dibynnu ar nifer yr adolygiadau y gofynnir amdanynt. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod oddeutu £1,360 y cais. Amlinellir y costau hyn yn nhabl 2.

*Tabl 2:*

| **Gradd** | **Diwrnodau** | **Costau** |
|---|---|---|
| HEO | 5 diwrnod | £1,360 |

7.8 Mae adran 79(2) o Ddeddf 2022 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru dalu tâl a/neu dreuliau pobl a benodir i adolygu penderfyniadau. Er nad yw lefel y tâl wedi'i chytuno eto, mae'n debygol o ddilyn y trefniant presennol o gyfraddau dyddiol ar gyfer penodiadau cyhoeddus, er na fydd penodiad yr adolygydd/panel o adolygwyr yn cael ei ystyried yn benodiad cyhoeddus. Mae'r dull hwn yn darparu hyblygrwydd, gyda'r rhai a benodir yn derbyn taliad am y diwrnodau y maent yn eu treulio yn asesu ceisiadau am adolygiad yn unig.

7.9 Mae'n anodd amcangyfrif cyfanswm y costau ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau gan y bydd hyn yn dibynnu ar nifer yr adolygwyr a benodir, hyd a chymhlethdod yr adolygiadau a nifer yr adolygiadau y gofynnir amdanynt. Mae tabl 3 isod yn nodi'r cost isaf, y gost ganolrifol a'r gost uchaf y dydd yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod panel o ddau adolygydd yn cael eu penodi[2] yn unol ag egwyddorion penodiadau cyhoeddus.

*Tabl 3*

| **Cost isaf** | **Cost canolrifol** | **Cost uchaf** |
|---|---|---|
| £184 | £564 | £732 |

7.10 Bydd costau i Medr hefyd o ran y broses adolygu. Gall y rhain gynnwys darparu gwybodaeth ychwanegol fel sy'n ofynnol gan yr adolygydd/adolygwyr penderfyniadau. Pan fydd adolygiad yn dod i'r casgliad y dylid gwrthdroi penderfyniad Medr, efallai y bydd costau gweinyddol ychwanegol i Medr yn ymwneud ag adolygu'r penderfyniad a chofrestru'r darparwr. Mae'n anodd darparu'r union gost gan y bydd hyn yn dibynnu ar nifer yr adolygiadau a chymhlethdod yr adolygiadau, yn ogystal â'r staff y byddai eu angen eu

[2] O dan Ddeddf Cyllido Addysg Uwch Cymru (2015) penodwyd dau aelod o'r panel i gynnal adolygiadau o benderfyniadau.

cynnwys. Mae tabl 4 isod yn darparu tabl o gyfraddau dyddiol ar gyfer staff Medr a allai gael eu cynnwys drwy gydol y broses.

*Tabl 4*

| Iau | Canol | Uwch | Arbennig[3] |
|---|---|---|---|
| £193 | £300 | £651 | £337 |

7.11 Bydd costau hefyd i unrhyw ddarparwr cofrestredig sy'n gofyn am adolygiad o benderfyniad. Bydd y costau yn gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno cais am adolygiad; ac ymateb i gyfarwyddydau a wneir drwy'r broses, gan gynnwys darparu gwybodaeth ychwanegol. Mae'n debygol y bydd y costau yn gostau cyfle yn bennaf sy'n gysylltiedig ag amser staff a chostau gweinyddol. Mae'n anodd darparu'r union gost gan y bydd hyn yn dibynnu ar nifer yr adolygiadau a chymhlethdod yr adolygiadau, yn ogystal â'r staff y byddai angen eu cynnwys.

## 8 Asesiad Effaith Integredig

8.1 Mae'r Asesiad Effaith Integredig a luniwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'w weld yma. Er nad yw'r Asesiad yn cyfeirio'n benodol at adolygiadau o benderfyniadau, mae'n ymdrin â'r ymgynghoriad cyhoeddus a ofynnodd gwestiynau am y broses. Gan fod y ddarpariaeth mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau ond yn un rhan o'r gyfres ehangach o ddarpariaeth mewn perthynas â'r drefn gofrestru, rydym yn ystyried bod yr Asesiad sydd eisoes wedi'i gyhoeddi yn ddigonol.

## 9 Asesu'r gystadleuaeth

9.1 Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gynnal. Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau yng Nghymru.

## 10 Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal gwerthusiad ar ôl gweithredu o Ddeddf 2022, ac yn yr un modd â Deddf 2015 bydd yn parhau i weithio gyda'r Comisiwn, darparwyr a chyrff cynrychioliadol.

10.2 Bydd angen cynllun hirdymor i gasglu tystiolaeth o gostau a manteision er mwyn darparu asesiad gwerth am arian pan fydd y gofrestr, a'r trefniadau rheoleiddio cysylltiedig, wedi'u hymgorffori. Bwriedir i'r rhain gael eu hadolygu ar gyfnodau o dair blynedd a phum mlynedd.

[3] Aelod o Fwrdd y Comisiwn (Medr)